

**Manyleb Uned Gwobr
Hyfforddwr Perfformiad a
Chynnwys y Cwrs**

Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion canlyniadau dysgu a meini prawf asesu Gwobr Hyfforddwr Perfformiad Corff Dyfarnu Canŵio Prydain.

Mae'r Fanyleb Uned a Chynnwys y Cwrs hwn yn ddogfen fewnol a ddefnyddir i lywio'r canlynol:

- Canllaw Cwrs Hyfforddwr Perfformiad;
- Tasg Athroniaeth Hyfforddi Hyfforddwr Perfformiad;
- Nodiadau Hwylusydd Digwyddiad Cymuned Ddysgu Hyfforddwr Perfformiad;
- Nodiadau Mentor Hyfforddwr Perfformiad;
- Canllawiau Sesiwn Mentora Cyn-asesu Hyfforddwr Perfformiad;
- Canllawiau Asesu Hyfforddwr Perfformiad;
- Nodiadau Asesydd Hyfforddwr Perfformiad;
- Tystiolaeth o Gyflawni Hyfforddwr Perfformiad;
- Canllawiau Canolfan Gyflwyno Hyfforddwr Perfformiad.

Ynglŷn â'r Cymhwyster

Teitl y Cymhwyster: Dyfarniad Hyfforddwr Perfformiad Lefel 4 BCAB

QAN: 603/5879/8

Lefel: 4

Cyfanswm Amser y Cymhwyster (TQT): 129 awr

Oriau Dysgu dan Arweiniad: (GLH): 49 awr

Dyddiad Cychwyn Gweithredol: 29 Mehefin 2020

Maes Pwnc y Sector: 08.1 Chwaraeon a Hamdden

Dyddiad Adolygu: 29 Mehefin 2029

Mae'r Wobr Hyfforddwr Perfformiad yn rhaglen ddelfrydol ar gyfer hyfforddwyr profiadol sy'n cael eu gyrru yn gynhenid, sydd am wella wrth hyfforddi'r padlwyr y maent yn gweithio gyda nhw, ac i'r rhai sy'n ceisio cydnabyddiaeth bod eu darpariaeth yn bodloni lefelau uwch o soffistigedigrwydd.

Bydd dysgwyr sy'n llwyddiannus yn eu hasesiad ac yn ennill cymhwyster Gwobr Hyfforddwr Perfformiad wedi dangos cymhwysedd galwedigaethol ac yn gallu gweithredu'n annibynnol fel hyfforddwr chwaraeon padlo cymwys.

Mae Gwobr Hyfforddwr Perfformiad Lefel 4 CDCP (BCAB) yn caniatáu i'r dysgwr weithredu'n annibynnol mewn lleoliad cyflogedig o fewn rhaglen dalent/elitaidd, canolfan gweithgareddau awyr agored neu'n hunangyflogedig.

Cynnwys

Rhagarweiniad	1
Ynglŷn â'r Cymhwyster.....	1
Ffiniau Amgylcheddol	4
Ystod Amgylcheddol	4
Maes Llafur Technegol a Thactegol.....	4
Grwpiau Poblogaeth Cyfranogwyr	4
Canlyniadau Dysgu Rhaglen Hyfforddwr Perfformiad	6
Deilliannau Dysgu a'r Meini Prawf Asesu	7

Ffiniau Amgylcheddol

Mae'r adran hon yn amlinellu'r pynciau chwaraeon penodol y bydd disgwyl i'r Hyfforddwr Perfformiad eu hyfforddi, mae hefyd yn diffinio'r grwpiau poblogaeth a'r amgylcheddau y gellir asesu'r ymgeisydd yn eu hyfforddi ac, os yw'n llwyddiannus, yn cael ei ystyried yn gymwys i hyfforddi.

Ystod Amgylcheddol

Mae pob cymhwyster wedi'i fframio gan amodau amgylcheddol lle gall yr Hyfforddwr weithredu. Nodir y rhain yn y 'Canllaw Cwrs Hyfforddwr Perfformiad' (Atodiad 2) a'u diffinio ymhellach yn 'Diffiniadau Amgylcheddol a Chanllawiau Defnyddio ar gyfer Cyfarwyddwyr, Hyfforddwyr ac Arweinwyr' Corff Dyfarnu Canŵio Prydain. Disgwylir i hyfforddwyr allu gweithredu yn yr ystod lawn o wahanol amodau o fewn y diffiniadau hyn. Mae ystod o amgylcheddau perthnasol yn cael eu samplu wrth asesu.

Maes Llafur Technegol a Thactegol

Rôl yr Hyfforddwr Perfformiad yw ysbrydoli, cymell a chefnogi unigolion i wella eu datblygiad tymor hir fel padlwyr. I wneud hyn, byddant yn datblygu arferion hyfforddi grŵp ac unigolion soffistigedig sydd wedi'u hategu gan fewnwelediadau gwybodus i'r elfennau technegol a thactegol yn y ddisgyblaeth.

Bydd ei repertoire yn helaeth a'i ddealltwriaeth yn sylweddol ym mhob maes sy'n berthnasol i'r grwpiau poblogaeth cyfranogwyr y mae'n eu hyfforddi.

Grwpiau Poblogaeth Cyfranogwyr

Bydd yr ymgeisydd yn dewis y grŵp/grwpiau cyfranogi (oedran, gallu, cwch/dosbarth) y bydd yn eu hyfforddi. Gall yr ystod o gyfranogwyr sy'n berthnasol i'r Hyfforddwr gynnwys:

- Cyfranogwyr ar wahanol gamau dysgu NEU lefelau perfformiad;
- Cyfranogwyr â gwahanol lefelau o gymhellion/dyheadau;
- Padlwyr o wahanol gychod (e.e. unigol, tandem, criw);

- Gwahanol ddosbarthiadau digwyddiadau cystadlu (e.e. K1, C1, criw, dynion, menywod, paracanŵ, Va'a, grwpiau oedran);
- Grwpiau poblogaeth penodol (e.e. dynion, menywod, gallu/anabledd, grwpiau oedran).

Canlyniadau Dysgu Rhaglen Hyfforddwr Perfformiad

Nod y rhaglen Hyfforddwr Perfformiad yw datblygu gallu hyfforddwr profiadol sydd wedi ymarfer llawer i ddefnyddio arferion hyfforddi soffistigedig i wella a gwneud y gorau o ddatblygiad a lles tymor hir cyfranogwyr a grwpiau o gyfranogwyr.

Trwy ymgysylltu'n llwyddiannus â'r rhaglen hon, bydd yr Hyfforddwr yn gallu:

1. Ysbrydoli ac ysgogi cyfranogwyr a grwpiau o gyfranogwyr i gyflawni eu nodau.
2. Blaenoriaethu asesiadau cywir o anghenion a dymuniadau datblygu perfformiad tymor canolig a thymor hir cyfranogwyr a grwpiau o gyfranogwyr.
3. Defnyddio dealltwriaeth dechnegol a thactegol gynhwysfawr yn ei arfer hyfforddi.
4. Defnyddio strategaethau hyfforddi ystyriol i wella a gwneud y gorau o berfformiad cyfranogwyr a grwpiau o gyfranogwyr.
5. Defnyddio strategaethau i ddatblygu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda a rhwng cyfranogwyr..
6. Rheoli cymhlethdodau cynnal ymgysylltiad, cymhelliant, mwynhad a datblygiad cyfranogwyr.
7. Arddangos safonau proffesiynol eithriadol.
8. Arddangos ymdeimlad o hunanymwybyddiaeth; gallu dangos sut mae ei werthoedd a'i gredoau yn sail i'w arfer hyfforddi.
9. Llywio ei ddatblygiad hyfforddi ei hun; dewis strategaethau i ddatblygu ei wybodaeth a'i sgiliau hyfforddi ei hun mewn meysydd sy'n briodol i'w anghenion a'i rôl benodol.

Deilliannau Dysgu a'r Meini Prawf Asesu

Deiliant Dysgu Trwy ymgysylltu'n llwyddiannus â'r rhaglen bydd yr Hyfforddwr yn gallu:	Meini Prawf Asesu Bydd yr Hyfforddwr yn gallu dangos hyn trwy:
LO1. Ysbrydoli ac ysgogi cyfranogwyr a grwpiau o gyfranogwyr i gyflawni eu nodau.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Defnyddio ymddygiadau i ysbrydoli ac ysgogi cyfranogwyr/grwpiau o gyfranogwyr sydd â gweledigaeth gytûn. 2. Meithrin amgylchedd gyda nodau i'r tîm ac i'r unigolyn. 3. Gosod yr enghraifft mae am ei weld yn y grŵp. 4. Defnyddio ac addasu arferion hyfforddi i wneud y gorau, neu wella, cymhellion sy'n bodoli a hybu cymhellion cynhenid.
LO2. Blaenoriaethu asesiad cywir o anghenion a dymuniadau datblygu perfformiad tymor canolig a thymor hir presennol cyfranogwyr a grwpiau o gyfranogwyr.	<ol style="list-style-type: none"> 5. Ymgymryd â dadansoddiad anghenion cadarn sy'n ystyried yr unigolyn 'cyfan'; ystyried pob elfen sy'n effeithio/dylanwadu ar berfformiad. 6. Defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i dadansoddi i gynllunio, blaenoriaethu a gosod a diwygio nodau gyda chyfranogwyr i gefnogi eu datblygiad parhaus ac yn y dyfodol.
LO3. Defnyddio dealltwriaeth dechnegol a thactegol gynhwysfawr yn ei arfer hyfforddi.	<ol style="list-style-type: none"> 7. Cymhwyso gwybodaeth arbenigol o ofynion perfformiad y ddisgyblaeth yn ei arfer hyfforddi.
LO4. Defnyddio strategaethau hyfforddi ystyriol i wella a gwneud y gorau o berfformiad cyfranogwyr a grwpiau o gyfranogwyr.	<ol style="list-style-type: none"> 8. Dewis o ystod eang o strategaethau hyfforddi ac arwain, dulliau ymarfer a dulliau gweithredu. 9. Ymateb ac addasu i ddymuniadau ac anghenion sy'n newid/datblygu. 10. Cydbwyso sylw ar ddiwallu anghenion unigol o fewn grwpiau o gyfranogwyr; a diwallu anghenion grwpiau. <p>Nodyn: Defnyddir strategaethau tymor byr, canolig a/neu dymor hir fel sy'n ofynnol gan amgylchedd hyfforddi penodol yr Hyfforddwr.</p>
LO5. Defnyddio strategaethau i ddatblygu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda a rhwng cyfranogwyr.	<ol style="list-style-type: none"> 11. Cysylltu â chyfranogwyr mewn ffordd sy'n caniatáu i'r Hyfforddwr a'r cyfranogwr ymddiried yn ei gilydd ac ymrwymo i'w gilydd, cydweithio'n effeithiol, ac adnabod a deall ei gilydd. 12. Cefnogi'r ddeinameg gymdeithasol o fewn grwpiau o gyfranogwyr, gan eu hannog i ymddiried ac ymrwymo i'w gilydd, cydweithio'n effeithiol, adnabod a deall ei gilydd.
LO6. Rheoli cymhlethdodau cynnal ymgysylltiad, cymhelliant, mwynhad a datblygiad cyfranogwyr.	<ol style="list-style-type: none"> 13. Defnyddio sgiliau gwneud penderfyniadau a datrys problemau; strategaethau monitro a gwerthuso; adolygiad a myfyrio i gefnogi ymgysylltiad, cymhelliant, mwynhad a datblygiad cyfranogwyr yn yr amgylchedd hyfforddi.

<p>LO7. Arddangos safonau proffesiynol eithriadol.</p>	<p>14. Defnyddio myfyrion ar gyfer gweithredu, myfyrion ar waith, a myfyrion ar weithredu i gyfoethogi, mireinio a chynyddu effeithiolrwydd eu harfer hyfforddi.</p> <p>15. Arddangos safonau proffesiynol eithriadol yn eu hamgylchedd hyfforddi yn unol â Chod Ymddygiad Corff Dyfarnu Canwio Prydain.</p> <p>16. Cynnal amgylchedd o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gyfranogwyr, gan gefnogi iechyd, lles, diogelwch a datblygiad cyffredinol cyfranogwyr dan ei ofal.</p> <p>17. Cymhwyso gwybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol, materion lleoli a chyfrifoldebau proffesiynol yn ei arfer hyfforddi.</p>
<p>LO8. Arddangos ymdeimlad o hunanymwybyddiaeth; gallu dangos sut mae ei werthoedd a'i gredoau yn sail ac yn ffurfio ei arfer hyfforddi.</p>	<p>18. Esbonio a dangos sut mae ei werthoedd a'i gredoau yn sail i'w arfer hyfforddi.</p> <p>19. Rheoli ei emosiynau yn yr amgylchedd hyfforddi.</p> <p>20. Defnyddio ymwybyddiaeth o'i duedd, sgiliau, gwerthoedd a chredoau ei hun wrth reoli'r amgylchedd hyfforddi.</p>
<p>LO9. Llywio ei ddatblygiad hyfforddi ei hun; dewis strategaethau i ddatblygu ei wybodaeth a'i sgiliau hyfforddi ei hun mewn meysydd sy'n briodol i'w anghenion a'i rôl benodol.</p>	<p>Yn dangos ymrwymiad (a'r sgiliau) i gefnogi datblygiad parhaus ei arferion a'i ddealltwriaeth hyfforddi.</p> <p>Heb ei asesu. Mae'n rhan annatod o'r rhaglen y bydd hyfforddwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu hyfforddwyr perthnasol.</p>

Manylir ar ddulliau a thasgau asesu yn y 'Canllawiau Asesu Hyfforddwr Perfformiad'.